'Nid fy ewyllys i ond . . .'

(gostyngeiddrwydd / ymostwng / ufudd-dod)

Pan oedd Emma'n ferch fach byddai wrth ei bodd yn cyfri. Cyfri i ddeg i ddechrau, yna i hanner cant, cant, dau gant ac yna i fyny i fil. Byddai popeth yn troi o gwmpas ffigurau. Byddai wrth ei bodd yn gwneud stori o ffigurau'r Beibl. 99 o ddefaid yn y gorlan ond roedd un wedi mynd ar goll. 12 o ddisgyblion gan Iesu Grist. Yntau yn cael ei demtio yn yr anialwch am 40 dydd a 40 nos. Gyda'r nos, ar ôl iddi dywyllu, byddai Emma yn edrych drwy'r ffenestr ar y sêr uwchben. Dyna lle byddai yn cyfri'r rheiny hefyd ac yn ceisio gwneud patrymau o'r sêr oedd i'w gweld yn yr awyr. Wrth iddi dyfu i fyny roedd dau beth yn llenwi ei bywyd – mathemateg ac astudio'r sêr.

Bu farw ei rhieni pan oedd hi'n ifanc ac aeth i fyw at ei modryb. Er fod ei modryb yn garedig iawn wrthi roedd ganddi hiraeth mawr am ei rhieni ac yn aml iawn byddai'n torri'i chalon. Bryd hynny, ychydig iawn o ferched oedd yn mynd i'r Brifysgol ond roedd Emma'n un o'r rhai ffodus a gwnaeth waith rhagorol gan ddod yn y man yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Illinois.

Pan oedd yn 35 oed digwyddodd rhywbeth a wnaeth newid cwrs ei bywyd. Bu'n wael iawn o glefyd y teiffoid. Ar ôl cyfnod anodd iawn yn ei bywyd penderfynodd ei bod am adael y Brifysgol a'i bod am fynd i weithio i Chicago. Meddai mewn llythyr at ei ffrind, "Rwy'n siŵr y buaset yn hoffi gwybod beth rwyf fi yn ei wneud yma. Roedd hi'n anodd setlo ar ôl gadael y Coleg ond rydw i'n hapus iawn erbyn hyn. Dydw i erioed wedi bod mor hapus ag ydw i'r dyddiau hyn. Yn fy ngwaith bob dydd rydw i'n helpu genethod sy'n byw ar y strydoedd. Does ganddyn nhw ddim cartrefi a dydyn nhw ddim yn gwybod ble mae eu rhieni. Mae angen pob help a chynhaliaeth arnyn nhw. A chyn i mi orffen y llythyr hwn mi hoffwn ddweud wrthyt fy mod yn aelod yng nghapel Dwight L. Moody, un o bregethwyr mawr America."

Ym 1871 cynheuodd tân trwy ganol Chicago a gwnaeth ddifrod na allai neb ei fesur. "Mae'n rhaid i ni wneud popeth fedrwn ni," meddai Moody, y pregethwr, wrth ei gynulleidfa. "Dowch i ni godi arian i ni gael bwyd, dillad a lloches i'r rhain sy'n ddigartref. Emma, mae gen i waith arbennig iawn i ti. Rwyf am i ti arwain y dosbarth sy'n astudio'r Beibl." "Ond," meddai hithau, "fydd hynny'n

helpu dim ar y rhai sydd wedi colli eu cartrefi a phopeth oedd ganddyn nhw." Ond nid dyn i ddadlau oedd Dwight Moody. Aeth Emma ati â'i holl nerth i arwain y dosbarthiadau oedd yn astudio'r Beibl ac yn ei hamser hamdden byddai'n cynnal cyfarfodydd i'r merched a dosbarthiadau gwnïo a gweu.

Gwelodd Moody fod Emma'n ferch dalentog iawn a pherswadiodd hi i agor ysgol i'r merched oedd yn teimlo yn eu calon fod Duw yn ei galw i waith arbennig. Bu ei hysgol yn llwyddiannus iawn. Roedd merched yr ardal yn tyrru yno i gael eu hyfforddi. Roedd y cwrs yn cynnwys amrywiaeth o ddarlithoedd a gwaith ymarferol. Byddai'r merched yn eu tro yn ymweld â chartrefi, yn arwain cyfarfodydd yn y cartrefi a'r eglwysi yn ogystal â helpu yn yr ysgolion Sul a chyfarfodydd i'r mamau. Yma, yng nghanol y bobl dlawd, yr oedd cyfraniad mwyaf Emma Dryer.

Adnod: "O Dad, os wyt ti'n fodlon, cymer y cwpan hwn oddi wrthyf. Ond gwneler dy ewyllys di, nid fy ewyllys i." Luc 22:42

Gweddi: A wnei di, O Dduw, fy helpu i ddefnyddio fy holl brofiadau i weini ar bobl eraill. Rho i mi'r nerth i wneud beth rwyt ti eisiau i mi ei wneud. Amen.

Trafod:

- Pa mor anodd oedd hi i Emma adael y Brifysgol a mynd i weithio i Chicago?
- Ydych chi'n credu fod Duw yn ein galw i wneud gwaith arbennig iddo fo?